# Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu yn y gwaith

## Coleg Cambria

Ffordd Parc y Gelli
Wrecsam
LL12 7AB

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2024

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Choleg Cambria

Mae Coleg Cambria yn ddarparwr rhaglenni prentisiaethau arweiniol ledled canolbarth a gogledd Cymru. Mae'r darparwr yn cyflwyno prentisiaethau i ryw 2,500 o brentisiaid, y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu lleoli yng ngogledd ddwyrain Cymru.

Mae'r darparwr yn gweithredu o dan gontract Llywodraeth Cymru ar gyfer prentisiaethau hyd at werth £11.88 miliwn yn 2024-2025.

Mae'r darparwr yn cyflwyno prentisiaethau ar lefelau sylfaen, prentisiaeth, a phrentisiaeth uwch ar draws y meysydd dysgu canlynol:

- Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu
- Adeiladu a'r amgylchedd adeiledig
- Cynnal a chadw ac atgyweirio cerbydau
- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Gofal plant
- Arweinyddiaeth a rheolaeth
- Gweinyddu busnes
- Cyfrifeg
- Gwasanaeth cwsmeriaid
- Lletygarwch ac arlwyo
- Gwallt a harddwch
- Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid
- Addysg a hyfforddiant

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r darparwr wedi lleihau'n sylweddol nifer y partneriaid cyflwyno y mae'n gweithio gyda nhw. Erbyn hyn, caiff tua 92% o'r ddarpariaeth ei chyflwyno gan Goleg Cambria, ac mae'r 8% sy'n weddill wedi'i gwasgaru ar draws y tri phartner sy'n is-gontractwyr:

- Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth a Gogledd Cymru (Hyfforddiant Myrick)
- Pendine Park Care Organisation Ltd
- Progression Training

## Crynodeb

Mae gan uwch arweinwyr yng Ngholeg Cambria ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu dysgwyr, eu staff a'u partneriaid cyflwyno. Maent yn gosod targedau heriol ar gyfer timau cyflwyno, sy'n creu diwylliant iach o welliant parhaus.

Mae gan y darparwr ddealltwriaeth dda o'i gryfderau a'i feysydd i'w gwella trwy gylch cadarn o hunanasesu a chynllunio gwelliant. Mae'r rhan fwyaf o staff ar draws y darparwr wedi ymgysylltu ac wedi'u cymell i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer eu dysgwyr ac yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd datblygiad proffesiynol.

Ar draws rhaglenni'r brentisiaeth, mae dysgwyr yn cwblhau eu prentisiaethau'n llwyddiannus ar gyfraddau uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddysgwyr yn cymryd yn hirach i gwblhau eu rhaglenni nag y dylent o hyd.

Mae gan y darparwr berthnasoedd effeithiol a hirsefydledig gydag ystod o gyflogwyr allweddol a phartneriaid cyflwyno, sy'n ei alluogi i ddiwallu anghenion medrau datblygol yr economi leol a rhanbarthol, yn enwedig mewn peirianneg, adeiladu ac iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi'u cymell ac yn frwdfrydig ynglŷn â'u rhaglenni. Maent yn rhyngweithio'n hyderus â'u haseswyr, eu tiwtoriaid a'u cyflogwyr ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda wrth weithio mewn parau neu grwpiau. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau ymarferol da iawn ac yn galw i gof sut mae gwybodaeth theori y maent yn ei dysgu yn berthnasol i'w rôl swydd. Mae'r darparwr wedi cyflwyno mentrau i wella dealltwriaeth dysgwyr o radicaleiddio ac eithafiaeth ond mae effaith y mentrau hyn hyd yma wedi bod yn gyfyngedig, a dealltwriaeth dysgwyr o'r materion hyn ar lefel sylfaenol iawn.

Mae bron pob un o'r aseswyr a'r tiwtoriaid yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol a chynhyrchiol â'u dysgwyr. Maent yn hyblyg yn eu hymagwedd at gyflwyno yn seiliedig ar anghenion unigol dysgwyr, ac yn gwirio lles dysgwyr yn rheolaidd. Mewn ychydig o achosion, mae aseswyr yn herio dysgwyr i gymryd perchnogaeth o'u dysgu ac yn cytuno ar dargedau estynedig. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, mae aseswyr yn gosod targedau nad ydynt yn ddigon heriol, sy'n effeithio ar gynnydd dysgwyr.

Mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd sylweddol yn gwella'i allu i gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau Cymraeg a'u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru. Mae aseswyr yn annog dysgwyr yn rhagweithiol i ddilyn elfennau o raglenni trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae llawer o staff cyflwyno yn elwa ar ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol, sy'n eu helpu i ymgorffori'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant yn eu sesiynau.

Mae'r darparwr yn hynod effeithiol o ran y ffordd y mae'n cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Trwy fuddsoddi mewn gwasanaethau cymorth, systemau olrhain a datblygiad proffesiynol staff, mae llawer o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth priodol yn eu dysgu ac yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau ymarferol.

## Argymhellion

A1. Gwneud yn siŵr fod dysgwyr yn cwblhau eu prentisiaethau o fewn eu dyddiad gorffen disgwyliedig

A2. Sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth am eithafiaeth a radicaleiddio a'u dealltwriaeth ohonynt, fel mater o drefn

A3. Cryfhau lefel yr her a gosod targedau i sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â'r dull cyfannol o gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ac ymgorffori'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn y ddarpariaeth brentisiaeth.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi'u cymell ac yn frwdfrydig ynglŷn â'u rhaglenni prentisiaeth, gan ddangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gweithleoedd a'u dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n dda wrth weithio gyda'i gilydd mewn parau a grwpiau bach. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu medrau gwaith a bywyd buddiol, ac o ganlyniad yn rhyngweithio'n hyderus â'u haseswyr, eu tiwtoriaid a'u cyflogwyr. O ganlyniad i ddatblygu'r ymddygiadau cryf a'r cymwyseddau gweithle hyn, daw'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn aelodau gwerthfawr o staff eu cyflogwyr. Mae llawer o ddysgwyr yn gwybod faint o gynnydd y maent yn ei wneud ac yn gwybod am y tasgau tymor byr y mae angen iddynt eu cwblhau. Mae llawer o ddysgwyr lefel uwch yn cymryd perchnogaeth o'u dysgu ac yn trafod targedau cytûn ar gyfer cwblhau asesiadau gyda'u haseswyr. Mewn ychydig o achosion, nid yw dysgwyr yn ymgysylltu'n llawn ag adolygiadau cynnydd ac maent yn dangos llai o flaengaredd ac ymgysylltiad â gweithgareddau, gan ddibynnu'n ormodol ar eu haseswyr.

Wrth ymgymryd â sesiynau i ffwrdd o'r gwaith, adolygiadau cynnydd a gweithgareddau gweithle, mae llawer o ddysgwyr yn ymgysylltu ac yn cyfrannu at ystod eang o dasgau. Yn y sesiynau hyn, mae llawer o ddysgwyr yn dangos medrau ymarferol cryf ac yn galw dysgu blaenorol i gof i ddatblygu medrau newydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn disgrifio'n glir sut mae gwaith ymarferol a theori yn cysylltu â'u rolau gweithle, gan ateb cwestiynau am eu gwaith yn hyderus. Er enghraifft, mewn rhaglenni arweinyddiaeth a rheolaeth, esboniodd dysgwyr sut mae'r model meddwl beirniadol yn fedr hanfodol ar gyfer rheoli timau a gwneud y gorau ohonynt, gan gynorthwyo timau i ddadansoddi sefyllfaoedd, gwneud penderfyniadau, a datrys problemau. Mewn rhaglenni cerbydau modur, mae dysgwyr yn dangos dealltwriaeth glir a chymhwysedd ymarferol wrth ganfod ac atgyweirio diffygion crogiant. Yn y gweithle, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn elwa ar lefelau da o gymorth gan eu cyflogwyr, sy'n eu galluogi i ddatblygu eu medrau ymarferol yn barhaus. Fodd bynnag, nid yw cyflogwyr yn mynychu adolygiadau cynnydd dysgwyr fel mater o drefn i roi mewnwelediad gwerthfawr ar berfformiad y dysgwyr yn y gweithle ac egluro'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i gefnogi eu dysgwyr ymhellach.

Mae llawer o ddysgwyr ag angen dysgu ychwanegol a nodwyd yn gwneud cynnydd cadarn mewn datblygu eu medrau ymarferol. Mae'r dysgwyr hyn yn ymgysylltu'n dda mewn sesiynau ac yn defnyddio ystod fuddiol o dechnolegau cynorthwyol i gefnogi eu dysgu, lle bo'n briodol.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd o gymharu â'u mannau cychwyn, gan ddefnyddio gweithgareddau asesu cychwynnol a gwella medrau.

Mewn llawer o achosion, caiff tasgau rhifedd eu hintegreiddio mewn sesiynau ymarferol a theori. Er enghraifft, mae dysgwyr pobi yn defnyddio addasiadau sypiau a 'chanrannau pobyddion' i roi rhifedd yn ei gyd-destun, yn ei gysylltu ag archebion surdoes wythnosol yn y gweithle, gan wella'u dealltwriaeth o ganrannau, cymarebau a niferoedd. Ar draws y ddarpariaeth, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd yn dda trwy gwblhau cardiau swyddi gweithle, adroddiadau ac aseiniadau ysgrifenedig.

Mae dysgwyr yn mynd ati i ymgymryd â thasgau myfyriol, sy'n cefnogi eu datblygiad medrau yn dda. Er enghraifft, mae dysgwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu ymatebion manwl am addasrwydd technolegau cynorthwyol, ac mewn arweinyddiaeth a rheolaeth, maent yn adolygu systemau a gweithdrefnau gweithle, gan awgrymu dewisiadau amgen a fyddai'n gweddu'n well i'r sefyllfa.

Mae llawer o ddysgwyr yn dangos medrau digidol cadarn, gan ymgymryd â'u dysgu yn hyderus. Maent yn defnyddio platfformau dysgu digidol yn dda i fanteisio ar ystod eang o adnoddau o ansawdd da i gefnogi eu datblygiad a chyflwyno gwaith i'w farcio.

Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio offer ac adnoddau pwrpasol fel yr arolwg canolog ar y pellter a deithiwyd i olrhain eu cynnydd a nodi meysydd i'w gwella. Yn yr achosion gorau, mae hwn yn offeryn cymhellol ychwanegol, hefyd.

Mae llawer o ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith sy'n briodol i lefel eu prentisiaeth. Mae eu gwaith wedi'i gyflwyno'n dda, ar y cyfan, gyda sillafu, atalnodi a gramadeg cywir. Caiff gwaith ysgrifenedig a thystiolaeth portffolio llawer o ddysgwyr eu cefnogi'n dda gan ystod eang o dystiolaeth asesu fel tystiolaeth ffotograffig, fideo a thystion. Mae llawer o ddysgwyr yn ymateb yn gadarnhaol i adborth llafar gan eu haseswyr ynglŷn â sut i wella'u gwaith.

Mae llawer o ddysgwyr yn meddu ar ymwybyddiaeth gynyddol o'r Gymraeg a'i diwylliant. Pan fo'n briodol, dangosant agweddau cadarnhaol tuag at ddefnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg. Mae dysgwyr mewn adeiladu ac iechyd a gofal cymdeithasol yn dilyn unedau hunanastudio Prentis-Iaith. Mae dysgwyr dwyieithog yn sgwrsio â'u haseswyr, ac mae nifer gynyddol ohonynt yn cwblhau gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg.

Mae dysgwyr yn mynd ati i gymryd rhan mewn cystadlaethau medrau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r ymglymiad hwn yn helpu cefnogi eu cymhelliant ac yn datblygu eu medrau personol a phroffesiynol ymhellach.

Mae llawer o ddysgwyr presennol yn gwneud cynnydd priodol, o leiaf, i gwblhau eu prentisiaethau. Fodd bynnag, ar draws y ddarpariaeth, nid yw ychydig o ddysgwyr yn cwblhau asesiadau'n brydlon nac yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud. Ar draws y ddarpariaeth, mae lleiafrif o ddysgwyr yn cwblhau eu fframweithiau yn hwyrach na'u dyddiad cwblhau disgwyliedig.

Ar lefel prentisiaeth sylfaen a phrentisiaeth, bu gwelliant yng nghyfraddau cyrhaeddiad fframwaith yn 2022/2023 ac maent yn parhau i fod gryn dipyn yn uwch na chyfartaleddau sector. Yn 2022/2023, gostyngodd cyfraddau cyrhaeddiad fframwaith prentisiaeth, ond maent yn parhau i fod uwchlaw'r cyfartaledd sector, a ostyngodd hefyd yn ystod yr un cyfnod.

Mae dysgwyr yn perfformio'n arbennig o dda mewn iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal, busnes, gweinyddu a'r gyfraith a lletygarwch ac arlwyo. Nid yw dysgwyr yn perfformio cystal ar lefel prentisiaeth uwch mewn peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu ac adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig.

## Lles, cymorth ac arweiniad

Mae bron pob un o'r aseswyr a'r tiwtoriaid yn darparu cymorth bugeiliol a phersonol effeithiol i'w dysgwyr, ac o ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn gwella'u hunanhyder a'u hunan-barch yn ystod eu cyfnod ar y rhaglen. Mae bron pob un o'r aseswyr yn meithrin perthnasoedd gwaith cyfeillgar a chynhyrchiol â dysgwyr, gan gynnal gwiriadau rheolaidd ar eu lles mewn ffordd sensitif a chefnogol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn hyderus i gyfleu unrhyw faterion personol a allai fod yn effeithio arnynt o ganlyniad i'r perthnasoedd effeithiol a ddatblygwyd gyda thimau cyflwyno. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r arweiniad ehangach a gânt yn fawr. Yn yr achosion gorau, mae dysgwyr yn elwa'n sylweddol ar y perthnasoedd hyn ac yn nodi effaith y strategaethau a ddefnyddir gan ymarferwyr i'w galluogi i oresgyn heriau a siarad yn gadarnhaol am eu hymdeimlad o gyflawniad.

Mae'r darparwr yn cwblhau amrywiaeth o weithgareddau llais y dysgwr, gan gynnwys ystod o arolygon i gofnodi barn dysgwyr ar eu profiadau. Mae arweinwyr canol yn defnyddio'r wybodaeth hon i fireinio a gwella'u darpariaeth.

Mae dysgwyr yn cwblhau cyfnod ymsefydlu cynhwysfawr ac yn cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad buddiol, sy'n eu helpu i ymgynefino ar eu rhaglen. Mae'r darparwr wedi cyflwyno mentrau i wella ymwybyddiaeth dysgwyr o radicaleiddio ac eithafiaeth. Er enghraifft, mae bron pob un o'r dysgwyr bellach yn cwblhau modiwl hyfforddiant ar-lein yn ystod eu cyfnod ymsefydlu. Fodd bynnag, nid ydynt yn datblygu eu dealltwriaeth barhaus o'r materion hyn yn ddigon da yn ystod eu cyfnod ar y rhaglen.

Mae aseswyr yn gweithio'n hyblyg i ddarparu ar gyfer amgylchiadau dysgwyr yn y cartref a'r gwaith. Pan fo'n briodol, maent yn rhoi'r dewis i ddysgwyr ymgymryd ag adolygiadau a sesiynau cymorth yn y gweithle, mewn canolfannau dysgu, neu ar-lein.

Mae'r darparwr yn hyrwyddo diwylliant o gynwysoldeb, parch a thegwch, sy'n cyfrannu at ymdeimlad dysgwyr o ddiogelwch. Caiff dysgwyr fanteisio ar ystod helaeth o gymorth lles,

sy'n hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr yn y gwaith, gyda chyfle i fynychu gweithdai a chwnsela y tu allan i oriau gwaith arferol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn glir ynghylch sut i fanteisio ar y cymorth hwn. Mae gan y darparwr systemau olrhain cynhwysfawr a chadarn ar waith i olrhain atgyfeiriadau, a ddefnyddir yn dda i gryfhau eu cynnig pan fydd angen.

Mae'r darparwr wedi datblygu ystod eang o adroddiadau dangosfwrdd defnyddiol, sy'n eu galluogi i fonitro effaith eu cynnig cymorth ar gyrhaeddiad a chwblhau amserol dysgwyr. Mae hyn yn darparu data gwerthfawr ar dueddiadau, a ddefnyddir yn effeithiol i herio unrhyw wahaniaethau yn eu cynnig i ddysgwyr.

Gall staff fanteisio ar ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol, sy'n eu galluogi i gael sgyrsiau ystyrlon â dysgwyr ynglŷn â'u hanghenion cymorth lles. Rhoddodd llawer o aseswyr a thiwtoriaid ddisgrifiad clir o sut roedd yr hyfforddiant hwn wedi eu galluogi i gefnogi eu dysgwyr pan fydd heriau'n codi.

Mae systemau hynod effeithiol ar waith i nodi a chynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Caiff dysgwyr sy'n nodi bod ganddynt ADY eu cyfeirio at y tîm cynhwysiant sy'n adolygu unrhyw anghenion cymorth, gan ddarparu cymorth pwrpasol fel gliniaduron, meddalwedd arbenigol, apiau darllen, technoleg gynorthwyol a threfniadau mynediad arholiadau.

Mae systemau olrhain yn galluogi timau cyflwyno i fanteisio ar unrhyw ymyriadau, neu gynlluniau cymorth, sy'n eu galluogi i wneud unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen. Er enghraifft, roedd dysgwr mewn gofal plant ag angen dysgu heb ei ganfod wedi derbyn asesiad diagnostig, a rhannwyd ystod o strategaethau a dulliau gyda'r dysgwr a'r asesydd i deilwra'r ffordd y cyflwynir ei rhaglen.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag ADY yn derbyn cymorth effeithiol trwy atgyfeiriadau ac addasiadau wedi'u gwneud gan y darparwr a'r partneriaid. Caiff timau cyflwyno fynediad at dudalen we i gyfeirio dysgwyr y gellid datgelu bod ganddynt ADY tra byddant yn dilyn rhaglen, a gofyn am arweiniad ar yr addasiadau y gallant eu defnyddio i'w cynorthwyo. Mewn llawer o achosion, mae timau cyflwyno'n gwneud defnydd da o'r adnodd hwn i nodi strategaethau ac yn trafod gyda dysgwyr sut byddent yn addasu eu ffordd o weithio.

Gall timau cyflwyno ar draws y bartneriaeth fanteisio ar ystod eang o ddysgu proffesiynol i gefnogi ADY. Estynnwyd y cynnig hwn i gyflogwyr hefyd, lle roedd angen. Er enghraifft, roedd cyflogwr wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o fod yn fyddar i'w alluogi i addasu a chefnogi ei brentis.

Mae'r darparwr yn dangos ymrwymiad cryf i ddiogelu, wedi'i ategu gan fesurau a phrotocolau effeithiol sy'n sicrhau diogelwch a lles dysgwyr a staff. Mae system ganolog yn cofnodi'r holl wiriadau cyn-cyflogaeth priodol ac fe gaiff gofynion hyfforddiant diogelu gorfodol eu holrhain a'u bodloni ar draws y darparwr.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag aflonyddu yn eu gweithle, gyda dealltwriaeth gadarn o gyda phwy y dylent gysylltu os oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch diogelu.

At ei gilydd, mae trefniadau diogelu'r darparwr yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Addysgu, hyfforddi, asesu a phrofiadau dysgu

Mae'r darparwr yn cynnig darpariaeth prentisiaethau amrywiol ac ymatebol o lefel sylfaen trwodd i lefelau uwch ar draws ystod o sectorau, wedi'i chyflwyno'n uniongyrchol a thrwy drefniadau sefydledig â thri phartner.

Caiff y cynnig prentisiaeth ei ffurfio'n bennaf gan y cyd-destun daearyddol, gyda ffocws cryf ar sectorau fel y sector modurol, iechyd a gofal cymdeithasol, peirianneg ac adeiladu. I ymateb i ofynion esblygol, mae'r darparwr yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr i fireinio trefniadau presennol, er enghraifft i gynnwys technolegau cerbydau hybrid. Mae'r darparwr hefyd yn cynnig rhaglenni mewn meysydd datblygol fel cadwraeth amgylcheddol, gweithgynhyrchu bwyd a gweithgynhyrchu uwch, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer anghenion diwydiant yn y dyfodol. Mae'r darparwr yn sicrhau bod prentisiaid yn cael cyfleoedd helaeth i gymryd rhan mewn cystadlaethau medrau ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, sy'n ymestyn eu profiadau a'u datblygiad.

Mae bron pob un o'r aseswyr yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol â dysgwyr trwy ddull hyblyg, gan gytuno ar weithgareddau a therfynau amser. Maent yn gwirio lles dysgwyr yn rheolaidd, gan ystyried ymrwymiadau personol a phroffesiynol wrth gytuno ar dasgau a gosod targedau.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid ac aseswyr yn trefnu sesiynau yn effeithiol trwy rannu amcanion clir, cyfarwyddiadau, ac amserlenni ar gyfer cwblhau, gan ddefnyddio arweiniad ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae llawer o aseswyr, ar y cyd â dysgwyr, yn cytuno ar dargedau tymor hir i gefnogi dilyniant. Fodd bynnag, mewn ychydig o sesiynau, nid yw aseswyr yn rhoi digon o ffocws ar dargedau tymor hirach, sy'n cyfyngu ar allu dysgwyr i gynllunio at y dyfodol yn effeithiol.

Mae staff cyflwyno yn defnyddio ystod o adnoddau wedi'u dewis yn dda i ennyn diddordeb dysgwyr. Maent yn integreiddio offer digidol, platfformau e-ddysgu, a chynnwys ar-lein, fel fideos a gwefannau, i gyfoethogi dysgu a chynnal diddordeb.

Mewn llawer o achosion, mae aseswyr yn teilwra dulliau cyflwyno i hoffterau dysgwyr. Er enghraifft, mewn sesiwn gofal plant, mae'r asesydd yn cynnig dewis i'r dysgwr gyflwyno aseiniadau yn Gymraeg neu yn Saesneg, gan feithrin personoli a chynwysoldeb. Mae

aseswyr hefyd yn rhoi'r opsiwn i gyfarfod ar-lein neu wyneb yn wyneb i ddarparu ar gyfer amgylchiadau unigol. Mae bron pob un o'r aseswyr yn rheoli sesiynau ar-lein yn esmwyth, gan sicrhau cydbwysedd rhwng gweithgareddau wedi'u harwain gan yr asesydd a gweithgareddau wedi'u cymell gan y dysgwr. Mewn sesiwn arweinyddiaeth a rheolaeth, mae'r asesydd a'r dysgwr yn rhannu rheolaeth o'r gofod ar-lein yn ddi-dor, gan wella cydweithio a chyfranogiad.

Mae llawer o diwtoriaid ac aseswyr yn cysylltu dysgu â'r gweithle. Mewn sesiwn cerbydau modur, mae dysgwyr yn canfod diffygion yn systemau crogiant ceir, gan gymhwyso gwybodaeth ddamcaniaethol yn uniongyrchol. Mae'r dasg ymarferol hon yn cysylltu ag arferion diwydiant, gan ddangos perthnasedd dysgu yn y gweithle. Mewn peirianneg drydanol, mae asesydd yn gwahodd dysgwr i rannu cyflawniadau, fel gosod cysylltydd, ac yn ymestyn y dysgu trwy drafodaethau i ddod o hyd i ddiffygion. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o sesiynau, nid yw tiwtoriaid yn cysylltu dysgu â phrofiadau gweithle, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i gysylltu'r cynnwys â'u hamgylchedd gwaith.

Mae llawer o aseswyr yn addasu eu ffordd o gyflwyno i ddarparu ar gyfer anghenion dysgwyr unigol mewn sesiynau grŵp a chyfarfodydd un i un, fel ei gilydd. Mewn sesiwn iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r asesydd yn caniatáu amser ychwanegol i ddysgwr nad Saesneg yw ei iaith gyntaf roi ymateb manwl am gynorthwyo cleient a oedd wedi colli ei glyw, gan sicrhau cynwysoldeb a chyfranogiad ystyrlon. Mewn sesiwn llythrennedd medrau hanfodol ar gyfer dysgwyr ag ADY, mae'r tiwtor yn darparu cymorth teilwredig, adnoddau sy'n cyd-fynd â diddordebau personol, ac adborth adeiladol i helpu dysgwyr i wneud cynnydd â'u hysgrifennu.

Mae staff cyflwyno yn darparu lefelau amrywiol o her a holi ar gyfer dysgwyr. Yn yr achosion gorau, maent yn gofyn cwestiynau treiddgar sy'n ymestyn gwybodaeth dysgwyr ac yn eu hannog i feddwl yn ddyfnach. Fodd bynnag, mae gormod o achosion o diwtoriaid ac aseswyr yn gofyn cwestiynau nad ydynt yn cael eu targedu'n ddigon da neu'n gofyn am atebion syml nad ydynt yn cael eu hymestyn, gan felly effeithio ar gynnydd dysgwyr.

Pan fo'n briodol, mae tiwtoriaid ac aseswyr yn annog dysgu buddiol ymhlith cyfoedion. Mewn sesiwn gofal plant, mae technegau holi'r tiwtor yn golygu bod dysgwyr yn myfyrio ar y technegau holi y maent yn eu defnyddio gyda'r plant yn eu lleoliadau, ac mae un dysgwr yn cymryd cwestiynau'n hyderus gan eu cyfoedion am eu profiadau.

Mae llawer o aseswyr yn rhoi adborth llafar adeiladol, manwl a ffocysedig, sy'n rhoi hwb i hyder dysgwyr, a'u hymdeimlad o gyflawniad, ac yn eu galluogi i gynllunio at y dyfodol. Yn yr achosion gorau, mae aseswyr yn cofnodi'r adborth hwn i alluogi dysgwyr i ailedrych a myfyrio. Fodd bynnag, mewn ychydig o sesiynau, mae diffyg dyfnder i adborth, ac mae'n canolbwyntio mwy ar gwblhau tasgau nag ar feysydd fel datblygu medrau llythrennedd

neu fedrau eraill. Yn ychwanegol, mae rhai aseswyr yn gosod targedau nad ydynt yn ddigon heriol, sy'n effeithio ar gynnydd dysgwyr.

Mae staff cyflwyno a chyflogwyr yn cyfathrebu'n dda, sy'n cefnogi profiad dysgu ar y cyd a dealltwriaeth gadarn o gynnydd dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw cyflogwyr bob amser yn cymryd rhan mewn sesiynau adolygu, sy'n cyfyngu ar fewnbwn a chyfleoedd datblygiadol ar gyfer dysgwyr. Mewn lleiafrif o sesiynau adolygu, mae aseswyr yn treulio cyfnodau estynedig yn teipio nodiadau tra bod dysgwyr yn aros yn oddefol. Mae hyn yn lleihau ymgysylltiad dysgwyr ac yn cyfyngu ar gyfleoedd dysgu.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad a goruchwyliaeth glir o ran darpariaeth prentisiaethau ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u staff, eu partneriaid a'u dysgwyr. Maent yn cytuno ar dargedau uchelgeisiol, estynedig ar gyfer timau cyflwyno, sydd wedi'u cysylltu â blaenoriaethau strategol ac yn meithrin diwylliant o welliant parhaus.

Mae gan y darparwr berthnasoedd effeithiol â phartneriaid cyflwyno sy'n cael eu cefnogi gan ystod briodol o gyfarfodydd, gwiriadau ansawdd, ac adolygiadau effaith. Mae partneriaid yn derbyn targedau clir a gwybodaeth reoli gywir, ac yn cyfrannu at y cylch hunanasesu sy'n nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r darparwr yn rheoli tanberfformiad partneriaid yn effeithiol, lle mae'n digwydd. Mae partneriaid yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y darparwr, yn enwedig y cyfleoedd i elwa ar gefnogaeth gan wasanaethau cymorth dynodedig, fel y tîm ADY. Fodd bynnag, nid yw'r darparwr bob amser yn rhannu arfer orau gyda phartneriaid lle caiff rhaglenni cyffredin eu cyflwyno.

Mae uwch arweinwyr yn wybodus am flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac yn ymateb yn dda iddynt. Caiff y darparwr ei gynrychioli'n dda mewn partneriaethau sgiliau rhanbarthol a rhwydweithiau busnes, ac mae arweinwyr canol yn cynnal fforymau cyflogwyr,   y mae pob un ohonynt yn llywio cynllunio darpariaeth sy'n ymateb i angen medrau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r darparwr yn gweithio'n dda gydag ystod eang o gyflogwyr. Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn cefnogi prentisiaid yn dda ac yn ymgysylltu'n weithredol â'r broses ddysgu. Fodd bynnag, mae presenoldeb cyflogwyr yn ystod adolygiadau cynnydd gyda dysgwyr yn gyfyngedig, ac mewn ychydig iawn o achosion, ni roddir amser i ddysgwyr fynychu sesiynau i ffwrdd o'r gwaith yn ystod oriau gwaith bob amser.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn ymgysylltu â'u timau yn effeithiol trwy adolygiadau perfformiad tymhorol o'r enw 'sgyrsiau cysylltiedig' a chyfarfodydd un i un mwy mynych, lle bo'n briodol. Mae bron pob un o'r staff yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda gan arweinwyr. Maent yn gwerthfawrogi'r amser a dreulir gyda'u rheolwyr llinell lle maent yn trafod materion fel eu lles personol a'u hanghenion dysgu proffesiynol eu hunain, a

chynnydd eu dysgwyr. Mae bron pob un o'r staff yn teimlo'u bod wedi eu cymell i gynnig y profiadau a'r deilliannau gorau ar gyfer eu dysgwyr.

Mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd sylweddol yn gwella'i allu i gynorthwyo dysgwyr i ddefnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg, a oedd yn argymhelliad yn yr arolygiad blaenorol. Mae'r darparwr yn mynd ati i annog dysgwyr i ymgymryd ag elfennau o raglenni trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llawer o staff cyflwyno yn elwa ar ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol, sy'n eu helpu i ymgorffori'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant yn eu sesiynau.

Mae gan y darparwr ddealltwriaeth glir a ffocws yn ei gynllunio gwelliant ar fynd i'r afael â'r angen i wella cyfraddau cwblhau amserol. Mae wedi rhoi system cynllunio gweithredu ar waith i gefnogi dysgwyr nad ydynt yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddysgwyr yn cymryd yn hirach i gwblhau eu rhaglenni o hyd na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol.

Mae gan y darparwr gylch sefydledig a chadarn o hunanasesu a gwelliant parhaus, sy'n cael ei lywio gan ystod o fesurau perfformiad allweddol ac yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn glir. Caiff y rhan fwyaf o'r staff eu cynnwys yn y broses hunanasesu, ac mae targedau gwella adrannol yn ymestyn blaenoriaethau strategol y darparwyr, ac yn cyd-fynd â nhw. Mae uwch arweinwyr yn chwarae rôl hynod weithgar yn y broses hunanasesu, ac mae tîm llawn yr arweinwyr gweithredol yn mynychu'r holl ddilysiadau hunanasesu adrannol a'r cyfarfodydd adolygu effaith. O ganlyniad, mae arweinwyr ar draws y darparwr yn meddu ar ymwybyddiaeth dda o'u cryfderau a'u meysydd i'w gwella, ac adroddir am y rhain yn rheolaidd ar lefel bwrdd.

Mae'r darparwr yn gwerthuso effeithiolrwydd addysgu, dysgu ac asesu trwy gylch o ymweliadau â sesiynau, ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i lywio a thargedu ymyriadau dysgu proffesiynol, lle bo'n briodol, er enghraifft trwy gynorthwyo staff i wella effeithiolrwydd adolygiadau cynnydd dysgwyr.

Mae'r darparwr yn rheoli ei gontract, ei gyllid a'i adnoddau'n dda. Mae'n darparu amgylcheddau addysgu a dysgu o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr ac yn arfogi timau cyflwyno ag adnoddau dysgu effeithiol. Mae'r darparwr wedi buddsoddi'n sylweddol yn ei strwythurau cymorth i sicrhau bod dysgwyr a staff yn gallu manteisio ar ystod helaeth o wasanaethau cymorth ar gyfer materion fel iechyd meddwl a lles ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae partneriaid o'r farn fod y cymorth a'r cyfle i fanteisio ar wasanaethau a gânt gan y darparwr yn cynrychioli gwerth da am arian am eu ffi rheoli.

Mae'r darparwr wedi creu ethos cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ei staff a'i bartneriaid. Caiff sesiynau dysgu proffesiynol eu cynllunio'n dda, eu mynychu'n dda a'u teilwra i anghenion penodol timau dysgu yn y gwaith. Mae'r rhan fwyaf o staff yn elwa ar ystod eang o hyfforddiant mewnol ac allanol sy'n cadw eu cymhwysedd galwedigaethol yn

berthnasol. Yn ddiweddar, mae’r darparwr wedi rhoi ffocws cryf dysgu proffesiynol ar gefnogi staff cyflwyno i nodi a chynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad i’r ffocws a’r buddsoddiad parhaus mewn dysgu proffesiynol, mae ceisiadau datblygiad proffesiynol gan dimau cyflwyno partneriaethau wedi cynyddu’n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr a'r holiadur i gyflogwyr, ac yn ystyried barn athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â'r pennaeth / prif weithredwr, llywodraethwyr (lle bo'n briodol), uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon unigol, hyfforddwyr ac aseswyr i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys sesiynau i ffwrdd o'r gwaith, sesiynau theori a sesiynau hyfforddi ymarferol
- yn ymweld ag ystod eang o ddysgwyr yn eu gweithleoedd i arsylwi eu medrau gweithle, arsylwi asesiadau, adolygu eu gwaith theori a chyfarfod â'u cyflogwyr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu, olrhain a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd rheolwyr a staff, cyfarfodydd ag is-gontractwyr a phartneriaid allweddol a chyfarfodydd â chyflogwyr, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2025